Ers sefydlu Menter Wledig Bro Preseli ryw dair blynedd yn ôl bellach mae nifer o bentrefi wedi mynd ati i wella'r neuadd leol neu'r hen ysgol a ddefnyddir mewn rhai achosion fel canolfan i'r gymuned. Eisoes gwnaed gwaith da ym Mrynberian er enghraifft ac mae cynlluniau ar y gweill yn Eglwyswrw a Chilgerran. Ond un o'r pentrefi â'r cynllun mwyaf uchelgeisiol ar gyfer ei neuadd yw Llandudoch.

Paratowyd y cynlluniau ar gyfer gweddnewid yr hen Neuadd Goffa gan bartneriaeth James a Jenkins, penseiri o Aberystwyth. Mae'r partner Harry James yn un o fechgyn Llandudoch.

Gwnaed cais i'r Swyddfa Gymreig am gymorth dan y Cynllun Grant Cyfalaf ac wedi hir aros derbyniwyd y newyddion da bod y cynllun wedi'i dderbyn er bod yn rhaid gweinyddu'r cynllun dros gyfnod o dair blynedd. Ond mae hyn yn sicrhau dros £100,000 o'r holl gost a amcangyfrifir yn £214,000. Cafwyd addewid hefyd o £12,500 o goffrau Cyngor Sir Dyfed a derbyniwyd £6,250 yr un wrth Gynghorau Dosbarth Preseli a Cheredigion.

Tra bo Swyddfa'r Fenter yn gwneud ei gorau i sicrhau arian o'r sector cyhoeddus bu'r Pwyllgor lleol dan gadeiryddiaeth Barrie Forster, a'i ysgrifenyddes gydwybodol Penny Rees, wrthi'n ddiwyd yn ceisio codi'r £53,000 sef y nod a osodwyd arnynt i'w godi yn lleol dros y tair blynedd. Y nod erbyn diwedd Awst eleni yw £26,000 ac o weld bo'r baromedr yn y maes parcio eisoes yn dangos bod £23,000 yn y coffrau mae'r

Brian Jones, Swyddog Datblygu Menter Wledig Bro Preseli yn cyflwyno siec i Penny Rees, Llandudoch.

Pwyllgor lleol yn hapus â'r sefyllfa bresennol. Cylchlythyrwyd tua 1,500 o gyn-blant a phentrefwyr Llandudoch sydd bellach ar wasgar dros y byd a bu ymateb calonogol iawn, a rhoddion yn cyrraedd o mor bell i ffwrdd ag Awstralia.

'Roedd Ebrill yr 11eg yn ddiwrnod pwysig iawn yn hanes y prosiect wrth i'r garreg sylfaen gael ei gosod yn ei lle gan Mr B. V. Rees o Garej yr Abaty, noddwr hael iawn i'r Neuadd. Rhoddwyd y garreg sylfaen gan gwmni Seiri Maen J. H. Jenkins, Aberteifi a daeth nifer o drigolion Llandudoch ynghyd i'r seremoni i ddangos eu cefnogaeth.

Yn ystod mis Ebrill hefyd sicrhaodd Swyddfa'r Fenter £3,000 arall at y gronfa, sef £1,500 yr un wrth Bwyllgor Tywysog Cymru ac Ymddiriedolaeth Pantyfedwen. Mae'r Pwyllgor lleol yn aros yn eiddgar i dderbyn canlyniad ei cais i'r Cyngor Chwaraeon ond, beth bynnag yr ymateb, mae'n amlwg bod brwdfrydedd ac ymroddiad pentrefwyr Llandudoch i'r prosiect yn gwarantu ei lwyddiant yn y pen draw.